MWLDAN

# Gwybodaeth Swydd:
## Swyddog Marchnata Digidol

Yn adrodd i'r Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, swydd ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg) yw swydd y Swyddog Marchnata Digidol. Mae'n gyfrifol am gydlynu, cyflwyno ac adrodd ar ymgyrchoedd digidol ar draws digwyddiadau byw mewnol y Mwldan, dangosiadau ffilm a digwyddiadau darlledu, a digwyddiadau allanol ( e.e. Lleisiau Eraill Aberteifi) a chynyrchiadau yn ôl yr angen, gan gydweithio'n agos ag aelodau eraill o'r tîm marchnata. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys tasgau marchnata cyffredinol, cefnogi'r tîm marchnata yn ôl yr angen, a sicrhau cysondeb brand ar draws pob pwynt cyffwrdd.

Wedi'i lleoli yn Aberteifi, mae hon yn swydd llawn amser, dros dro am 9 mis yn gweithio 37.5 awr, yn bennaf o ddydd Llun i ddydd Gwener (gyda nosweithiau a phenwythnosau achlysurol gan ddibynnu ar y rhaglen), sy'n cynnig cyflog o £26,386.

## Cyfle Cyfartal

Os ydych chi'n berson anabl ac yn teimlo na allwch fodloni rhai o'r gofynion swydd yn benodol oherwydd eich anabledd, rhowch wybod i ni yn eich cais.

Mae'r Mwldan yn gyflogwr cyfle cyfartal.

## Y Broses Ymgeisio

Cyflwynwch CV llawn gyda llythyr eglurhaol yn cynnwys manylion llawn cyflogaeth gyfredol a blaenorol, profiad sy'n arbennig o berthnasol i'r swydd a hysbysebwyd, ynghyd â hanes addysg a chyflog cyfredol. Efallai y bydd ymgeiswyr am gynnwys unrhyw wybodaeth neu ddeunydd ychwanegol y maent yn ei ystyried yn berthnasol i'w cais.

Dylid marcio ceisiadau fel rhai **Cyfrinachol** a'u hanfon at Victoria

Goddard: victoria@mwldan.co.uk (neu trwy'r post os oes angen at: Rheolwr Cyffredinol, Mwldan, Heol Bath, Aberteifi, SA43 3JY)

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 5pm Dydd Gwener 5ed Gorffennaf**

**Bydd angen i ymgeiswyr fod ar gael fel a ganlyn:**

- Cyfweliadau: o 9fed Gorffennaf
- Bod ar gael i ddechrau gweithio o: Awst 2024